ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Pecyn Cymorth i Ysgolion Uwchradd

Cyfathrebu â rhieni am gymorth ariannol gyda Hanfodion Ysgol, gan gynnwys Cinio Ysgol Am Ddim

BWYDO EU BYWYDAU



# Yr Ymgyrch

# Ein hymagwedd

## Pwy/Beth?

Pecyn cymorth yw hwn i helpu ysgolion uwchradd i egluro i rieni a gofalwyr am y cymorth gyda chostau ysgol a allai fod ar gael iddynt — gan gynnwys y Grant Hanfodion Ysgol (PDG Mynediad gynt) a Chinio Ysgol am Ddim.

## Pam?

I gydnabod y cynnydd mewn costau byw, rydym yn annog rhieni a gofalwyr i wirio a ydynt yn gymwys i gael cymorth gyda chostau ysgol, ac i hawlio help.

Yn seiliedig ar ein canfyddiadau o grwpiau ffocws ar draws Cymru, rydym wedi canfod bod rhieni'n disgwyl clywed yn uniongyrchol gan eu hysgolion a'u Hawdurdodau Lleol am newidiadau i addysg eu plentyn.

## Sut?

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y wybodaeth gywir am y cymorth sydd ar gael, yn ogystal â sut a ble i wneud cais. Yn y pecyn cymorth hwn, fe welwch bopeth sydd ei angen arnoch i rannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr dysgwyr yn eich ysgol.

# Chwarae eich rhan

**Gallwch ein helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a gofalwyr yn eich ysgol neu leoliad.**

Rydym wedi creu banc o asedau parod y gallwch eu defnyddio ar sianeli cyfathrebu eich ysgol neu leoliad, boed yn gyfryngau cymdeithasol, apiau ysgol, e-byst, neu bosteri o amgylch yr adeilad.

## Beth allwch chi ei wneud:

- Rhannu negeseuon ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Argraffu posteri a'u harddangos o amgylch y mannau y mae rhieni a gofalwyr yn ymweld â nhw
- Ysgrifennu am Hanfodion Ysgol a Chinio Ysgol Am Ddim yn eich cylchlythyr, neu ddefnyddio'r templedi a ddarperir
- Anfon negeseuon at rieni a gofalwyr trwy e-bost, WhatsApp neu unrhyw sianeli cyfathrebu eraill e.e. taflenni adref mewn bagiau
- Cynnal sesiwn 'Beth sydd angen i chi ei wybod am gymorth ariannol ar gyfer Hanfodion Ysgol' gyda rhieni a gofalwyr

# Banc asedau / adnoddau

**Dyma bopeth sydd ei angen arnoch i ddechrau. Cliciwch ar y banc asedau isod i gyrchu a lawrlwytho asedau a thempledi.**

**Cliciwch yma am y banc asedau**







# Cyfrifon i'w dilyn

**Twitter**
@LlC_Addysg / @WG_Education
@dechraucartref / @edubeginsathome
@HwbAddysg_Cymru

**Facebook**
addysgcymru / educationwales
dechraucartref / beginsathome

**YouTube**
Addysg Cymru / Education Wales

**Websites**
gov.wales/education-changing
hwb.gov.wales

**Hashtags to Use**
#BwydoEuBywydau / #FeedTheirFuture



# Negeseuon

# Ymadroddion allweddol

**Dyma'r ymadroddion allweddol y dylid eu hystyried yng ngeiriad ein cynnwys.**

### Cinio Ysgol Am Ddim

Yn yr ysgol uwchradd, mae angen i chi wneud cais am Ginio Ysgol Am Ddim gyda'ch awdurdod lleol - os ydych chi'n gymwys, byddwch chi a'ch ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol.

Noder: Mae Cinio Ysgol Am Ddim i bawb mewn Ysgolion Cynradd yn fenter ar wahân sy'n cael ei chyflwyno mewn ysgolion cynradd yn unig. Gan ddechrau Medi 2022 gyda phlant oed Derbyn a symud ymlaen i bob plentyn hyd at Flwyddyn 6 erbyn Medi 2024.

### Grant Hanfodion Ysgol

Mae hwn yn cyfeirio at y cymorth a allai fod ar gael i'r rheini sy'n cael, neu'n gymwys i gael, Cinio Ysgol Am Ddim ar hyn o bryd. Gall y Grant Hanfodion Ysgol helpu i dalu am bethau fel gwisg ysgol, esgidiau, deunydd ysgrifennu, cit chwaraeon ac offer arall.

O fis Gorffennaf 2023, y lwfans yw £125 fesul dysgwr a hyd at £200 ar gyfer y rhai sy'n mynd i Flwyddyn 7, i gydnabod costau ychwanegol dechrau ysgol uwchradd.

# Negeseuon allweddol

**Dyma rai negeseuon allweddol i helpu rhieni a gofalwyr i hawlio'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo.**

- Os ydych yn derbyn taliadau budd-dal penodol, efallai y byddwch yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim a chymorth gyda Hanfodion Ysgol eraill.
- Mae'n cymryd munudau i gwblhau'r ffurflen i wirio a ydych yn gymwys.
- Os yw eich plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim, efallai bydd gennych hawl hefyd i hyd at £200 o gymorth ychwanegol ar gyfer Hanfodion Ysgol. Rydym yn eich annog i wirio gyda'ch awdurdod lleol am y cymorth llawn a allai fod ar gael i chi.
- Mae'r Grant Hanfodion Ysgol yn helpu i dalu costau gwisg ysgol, esgidiau, cit chwaraeon, deunydd ysgrifennu ac offer arall.
- Mae hefyd yn bwysig iawn i ysgol eich plentyn eich bod yn gwneud cais. Gall yr ysgol gael cyllid ychwanegol ar gyfer plant sy'n gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim (eFSM) a fydd yn caniatáu iddynt ddarparu rhaglenni cymorth wedi'u targedu, prynu offer a darparu adnoddau ychwanegol.
- Mae dysgwyr sy'n derbyn Cinio Ysgol Am Ddim yn cael cerdyn heb arian i'w ddefnyddio yn y ffreutur fel pawb - ni ddylai fod unrhyw stigma ynghlwm â chael Cinio Ysgol Am Ddim.
- Mae angen i chi wneud cais i'r awdurdod lleol nad yw ysgol eich plentyn yn yr awdurdod lleol yr ydych yn byw ynddo (os yn wahanol).



# Rhannu Ar-lein

# Copi enghreifftiol ar gyfer WhatsApp ac apiau ysgol

**Y nod:**
Defnyddio sianeli mwy uniongyrchol fel WhatsApp neu apiau sy'n unigryw i'ch ysgol neu leoliad.

Dyma rai negeseuon y gallwch eu rhannu:

| WhatsApp / Apiau Ysgol |
|---|
| Gall y Grant Hanfodion Ysgol helpu i dalu am bethau fel gwisg ac esgidiau ysgol, cit chwaraeon ac offer arall. Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol am Ddim, efallai y bydd gennych hawl i gyllid ychwanegol drwy'r Grant Hanfodion Ysgol. I hawlio help, ewch i: **[URL]**. |
| Ydych chi wedi gwirio a ydy eich plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim neu'r Grant Hanfodion Ysgol? Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â **[PERSON a CYSWLLT].** Am fwy o wybodaeth: **[CYSWLLT TUDALEN ALL]** |
| Gwyddom fod llawer o rieni yn **[YSGOL]** yn teimlo'r pwysau oherwydd costau byw. Os ydych ar incwm isel ac yn derbyn budd-daliadau penodol, efallai y gallwch gael cymorth gan **[ENW ALL].** Os yw'n gymwys, gallai eich plentyn gael hyd at £200 ar gyfer Hanfodion Ysgol, ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer eich ysgol. Am fwy o wybodaeth: **[URL]** |

**Gellir dod o hyd i asedau gweledol cynorthwyol yma.**

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol: Cinio Ysgol Am Ddim

**Y nod:**
Rhoi gwybod i rieni a gofalwyr bod cymorth ar gael iddynt drwy Cinio Ysgol Am Ddim.

Dyma rai negeseuon parod y gallwch eu defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol:

| Facebook / Instagram / Twitter |
| --- |
| Ydych chi'n gymwys am Ginio Ysgol Am Ddim i'ch plentyn? Dysgwch am y cymorth y gallech fod â hawl iddo: **www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol**<br><br>**#BwydoEuBywydau** |
| Ydy eich plentyn yn yr ysgol uwchradd? Os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol, gallech gael hyd at £200 y plentyn i helpu gyda chostau ysgol. Hawliwch help: **www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol**<br><br>**#BwydoEuBywydau** |
| Yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim? Gallai mwy o gymorth fod ar gael i chi drwy'r Grant Hanfodion Ysgol. Hawliwch help: **www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol**<br><br>**#BwydoEuBywydau** |
| Os ydych yn derbyn cymhorthdal incwm fel Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Treth Plant, yna efallai y gallai eich plentyn gael Cinio Ysgol Am Ddim a hyd at £200 ar gyfer Hanfodion Ysgol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol**<br><br>**#BwydoEuBywydau** |

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol: yn benodol i'ch ysgol neu leoliad

**Y nod:**
Codi ymwybyddiaeth rhieni o'r cymorth sydd ar gael drwy'r Grant Hanfodion Ysgol.

Gall y manylion amrywio, felly dyma rai enghreifftiau i'ch rhoi ar ben ffordd. Addaswch y negeseuon i'ch ysgol neu leoliad.

| Facebook / Instagram / Twitter |
|---|
| Mae **[ENW YSGOL]** yn gwybod y gall costau ysgol fod yn ddrud. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn cynnig help gyda Hanfodion Ysgol fel cost gwisg ysgol, cit, offer a mwy. Hawliwch help: **[DOLEN].** |
| Ewch i weld os allai eich blentyn gael Cinio Ysgol Am Ddim gyda **[ENW'R ALL]**. Os ydyn nhw'n gymwys, gallai eich plentyn gael cinio poeth yn yr ysgol am ddim, help gyda Hanfodion Ysgol a gallai **[ENW YSGOL]** gael arian ac adnoddau ychwanegol. Dysgwch fwy: **[DOLEN]** |
| Os ydy eich plentyn yn gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim, gallech hawlio hyd at £200 o gymorth ychwanegol fesul plentyn ar gyfer Hanfodion Ysgol. Mae **[ENW YSGOL]** yn annog ein holl rieni a gofalwyr i hawlio help. Dysgwch fwy: **[DOLEN ALL]**. |

# Templed Cylchlythyr / e-bost

**Ystyriwch y pynciau canlynol i'w cynnwys mewn diweddariadau e-bost i rieni a gofalwyr.**

'Sut gall rhieni/gofalwyr yn eich ysgol hawlio Cinio Ysgol Am Ddim, a chymorth arall gyda Hanfodion Ysgol?'

'Pam mae'n bwysig i blant gael cinio poeth yn yr ysgol? e.e. buddion ar gyfer dysgu, lles ac ymddygiad.'

'Sut mae cymorth gyda Hanfodion Ysgol a phrydau bwyd wedi helpu dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn eich ysgol?'

Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae cymorth ar gael ar gyfer Cinio Ysgol Am Ddim a hanfodion eraill yr ysgol, ond nid yw llawer o rieni/gofalwyr wedi hawlio'r cymorth sydd ar gael iddynt. Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch atgoffa o'r ddau fath o gymorth y gallai eich plentyn fod â hawl iddynt.

Peidiwch â cholli allan ar **Ginio Ysgol Am Ddim**. Mae cinio ysgol yn hybu bwyta'n iach, yn cynyddu'r amrywiaeth o fwyd y gallai eich plentyn ei fwyta, a gall wella ymddygiad a sgiliau cymdeithasol. Os ydych yn derbyn rhai budd-daliadau penodol, neu os ydy eich amgylchiadau wedi newid, gwiriwch a allech ei gael trwy **[URL YR AWDURDOD LLEOL]**. Mae'r ffurflen yn fyr a dim ond yn cymryd ychydig funudau i'w chwblhau.

Os yw'ch plentyn eisoes yn cael Cinio Ysgol Am Ddim, gallai hyd at £200 o help ychwanegol fod ar gael fesul plentyn drwy'r **Grant Hanfodion Ysgol**, ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer eich ysgol. Mae'r Grant Hanfodion Ysgol yn helpu gyda chostau Hanfodion Ysgol fel gwisg ysgol ac offer i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr ysgol.

Sylwer, os ydy eich plentyn derbyn Cinio Ysgol Am Ddim, bydd angen i chi wneud cais ar wahân am Grant Hanfodion Ysgol i gael mynediad at yr holl gyllid sydd ar gael.

Cofion cynnes

# Rhestr wirio:
## Oes gennych chi bopeth sydd ei angen arnoch chi?

- [ ] **Dilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol**
- [ ] **Rhannu negeseuon allweddol ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli rhiant**
- [ ] **Creu a rhannu cynnwys gan ddefnyddio'r hashnod #BwydoEuBywydau**
- [ ] **Lawrlwytho a rhannu deunyddiau print**
- [ ] **Siarad â rhieni a gofalwyr am yr hyn y mae angen iddynt ei wybod i gael mynediad at yr holl gymorth ariannol sydd ar gael**

BWYDO EU BYWYDAU



BWYDO EU BYWYDAU

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diolch.